# Cerdyn Argyfwng Gofalwyr

Os ydych yn gofalu am rywun sy'n dibynnu arnoch oherwydd bod ganddynt salwch, anabledd neu’n oedrannus ac yn fregus, gallai'r cerdyn argyfwng gofalwyr roi tawelwch meddwl i chi.

## Beth yw Cerdyn Argyfwng Gofalwyr a beth yw'r manteision i mi?

Mae hwn yn gerdyn mae gofalwyr yn ei gario gyda nhw bob amser. Os yw gofalwr yn cael damwain neu salwch sydyn, mae'r cerdyn yn rhybuddio’r gwasanaethau brys fod yna rhywun gartref sy'n methu ymdopi heb gymorth. Gall gofalwyr hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth hwn os ydynt yn cael eu gohirio tra byddant allan.

## Sut mae’r cerdyn yn gweithio?

Mae'r gofalwr yn llenwi ffurflen gofrestru sy'n rhoi manylion y person y mae'n gofalu amdano a manylion cyswllt hyd at ddau berson arall a allai gymryd eu lle mewn argyfwng.

Yna mae manylion y bobl enwebedig hyn yn cael eu storio ar system wybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych i ddarparu gwasanaeth ymateb galwadau brys 24 awr. Mae'r gofalwr yn derbyn Cerdyn Argyfwng Gofalwyr gyda'i rif adnabod unigryw arno.

Os mai chi yw'r gofalwr, bydd angen i chi gario'r cerdyn gyda chi bob amser, mewn pwrs neu waled

Os bydd argyfwng, bydd y gwasanaethau brys yn cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych pan fyddant yn dod o hyd i'ch cerdyn ac yn dyfynnu eich rhif adnabod unigryw. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedyn yn cysylltu ag un o’ch pobl enwebedig a all gamu i mewn.

## Beth os nad oes gennyf unrhyw un y gallaf ei enwebu?

Gallwch barhau i gofrestru ar gyfer y cynllun. Os oes argyfwng ac nad oes gennych unrhyw un wedi’i enwebu i gamu i’r adwy, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymateb yn awtomatig.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

# Cerdyn Argyfwng Gofalwyr

## Beth fydd yn rhaid i'r bobl a enwebwyd ei wneud?

Dylai pob person enwebedig adnabod y person rydych yn gofalu amdano, a faint o gymorth a chefnogaeth sydd ei angen arnynt. Bydd angen iddynt wybod sut i gael mynediad i'ch cartref, neu gartref y person y gofalwch amdano. Bydd angen iddynt hefyd wybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Os na all Gwasanaethau Cymdeithasol gael gafael ar yr un o'r ddau berson a enwebwyd gennych i gamu i'r adwy, byddant yn darparu ymateb priodol.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru. Mae hon ar gael gan:

Gwasanaethau Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)

38-42 Stryd Fawr

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint

CH7 1BB

Rhif Ffôn: 01352 752525

E-bost: denbighshire@newcis.org.uk

Neu:

Un Pwynt Mynediad

Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbycg

Blwch Post 62

Rhuthun

Sir Ddinbych

LL15 9AZ

Rhif Ffôn: 0300 456 1000

E-bost: unpwyntmynediad@sirddinbych.gov.uk

# Cerdyn Argyfwng Gofalwyr

Os oes gennych asesiad anghenion gofalwyr, gallwch lenwi ffurflen gofrestru ar yr un pryd. Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau at NEWCIS. Byddant yn eich cofrestru gyda'r gwasanaeth ac yn anfon eich manylion at Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych. Yna byddwch yn cael eich Cerdyn Argyfwng Gofalwyr.

## Cyfrinachedd gwybodaeth

Bydd eich holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Gweler hysbysiad preifatrwydd Cyngor Sir Ddinbych yma.

## Beth os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Byddwch yn cael llythyr adolygu bob blwyddyn i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir amdanoch yn dal i fod yn gywir. Gallwch hefyd gysylltu â NEWCIS ar unrhyw adeg i roi gwybod iddynt am y newidiadau. Bydd NEWCIS yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr, cysylltwch â NEWCIS neu Un Pwynt Mynediad.`